# Adolygiad Dilynol o Wasanaethau Hamdden – Cyngor Caerdydd

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3200A2022

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Caerdydd fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os daw cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth drin ceisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cyflym a da wrth fynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella, ond mae angen iddo wneud mwy i sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn sbarduno darpariaeth hamdden yn llawn yn y dyfodol.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Erbyn hyn mae gweledigaeth hamdden glir ar gyfer y ddinas wedi'i chefnogi gan strategaeth pum mlynedd. Roedd rhywfaint o ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r strategaeth, yn enwedig integreiddio a chydweithio. Fodd bynnag, roedd ymwneud cyfyngedig â'r boblogaeth ehangach a gwendidau yn y modd yr ystyriodd y Cyngor gydraddoldeb pan fabwysiadodd y strategaeth

Comisiynodd y Cyngor adolygiad o'r contract GLL ac mae'n mynd ati i ystyried newidiadau i elfennau penodol o'r contract 6

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i gymhwyso'n gryfach, ond dylai'r Cyngor sicrhau'r trefniadau rheoli contract GLL gorau i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu llunio'n llawn yn unol â'r egwyddor hon 6

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu a goruchwylio o'r contract GLL 6

Mae'r Cyngor bellach yn monitro'r contract GLL drwy ei brosesau rheoli risg corfforaethol ond mae angen iddo sicrhau ei hun bod ganddo gamau effeithiol i liniaru'r risg y bydd y contract yn methu 6

Mae adroddiadau perfformiad GLL i aelodau wedi gwella; fodd bynnag mae gwybodaeth ariannol yn parhau i fod yn gyfyngedig 6

Argymhellion 7

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cyflym a da wrth fynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella, ond mae angen iddo wneud mwy i sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn sbarduno darpariaeth hamdden yn llawn yn y dyfodol 9

Atodiadau

Atodiad 1 – Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella o'n hadroddiad yn 2020 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd a pham

1 Ym mis Hydref 2020, adroddwyd i Gyngor Caerdydd (y Cyngor) ein canfyddiadau o'n hadolygiad o wasanaethau hamdden a ddarperir gan Greenwich Leisure Ltd (GLL) a sut y gwnaethant gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y Cyngor fel y'u disgrifir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor, Cyflawni Uchelgais Prifddinas.

2 Roedd canfyddiadau'r adolygiad hwnnw[1] yn seiliedig ar waith maes a gyflawnwyd gennym cyn pandemig COVID-19. Bryd hynny, daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei brif nod o gadw ei ganolfannau hamdden ar agor ond roedd lle sylweddol i'r Cyngor gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn well a chryfhau ei drefniadau i sicrhau ei hun bod ei gytundeb â GLL yn rhoi gwerth am arian.

3 Cynhaliwyd adolygiad dilynol gennym ym mis Ebrill a Mai 2022 i asesu cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r chwe chynnig ar gyfer gwella a wnaethom yn ein hadroddiad yn 2020.

### Yr hyn a ganfuwyd

4 Fel y nodwyd yn **Arddangosyn 1** isod, gwelsom fod y Cyngor wedi cyflawni dau o'r chwe chynnig ar gyfer gwella ac wedi cyflawni'r gweddill yn rhannol.

5 Mae rhagor o fanylion am ein hasesiad o gynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â phob un o'n cynigion ar gyfer gwella wedi'i nodi yn **Atodiad 1**.

6 Mae'r adroddiad cryno yn rhoi trosolwg o'n canfyddiadau.

**Arddangosyn 1: o'ch asesiad o gynnydd y Cyngor wrth gyflawni'r cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad yn 2020**

| Cynigion ar gyfer gwella | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **Dylai’r Cyngor:**<br>CagG 1: Sefydlu strategaeth, gweledigaeth a blaenoriaethau eglur ar gyfer ei wasanaethau hamdden sy’n ymgorffori ystyriaeth i Ddeddf LlCD. | Wedi’i gyflawni’n rhannol |

[1] Cyngor Caerdydd – Adolygiad o Wasanaethau Hamdden | Archwilio Cymru

| Cynigion ar gyfer gwella | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| CagG 2: Cynnal adolygiad o fanyleb gwasanaethau contract GLL i sicrhau ei bod o gymorth i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer ei wasanaethau hamdden a'i amcanion llesiant ehangach. | Wedi'i gyflawni |
| CagG 3: Ystyried sut y gall gryfhau'r modd y cymhwysir yr egwyddor datblygu cynaliadwy trwy'r gwasanaethau a ddarperir gan GLL, gan gynnwys:<br>• mabwysiadu dull mwy strategol o gydweithio sy'n sicrhau bod yr holl sefydliadau gan gynnwys Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro/Iechyd y Cyhoedd a'r Trydydd Sector yn rhan o gynllunio a datblygu gwasanaethau GLL a gwasanaethau hamdden eraill ar lefel leol a rhanbarthol.<br>• mynd ati ymhellach i integreiddio'r broses o gynllunio a darparu Gwasanaethau Hamdden GLL â chyrff cyhoeddus eraill a gwasanaethau eraill y Cyngor, megis Addysg a Gofal Cymdeithasol.<br>• gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u cynnwys yn y broses o ddatblygu a darparu gwasanaethau hamdden GLL a gwasanaethau hamdden eraill i sicrhau eu bod yn cynrychioli anghenion a dyheadau'r amrywiaeth lawn o gymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu | Wedi'i gyflawni'n rhannol |
| CagG 4: Gwella'r trefniadau rheoli contract i sicrhau bod manyleb y contract yn cael ei monitro mewn modd cadarn a thryloyw. | Wedi'i gyflawni |
| CagG 5: Sicrhau bod y Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i ystyried risgiau ariannol a risgiau llesiant hirdymor y contract hamdden yn ei brosesau rheoli risgiau corfforaethol. | Wedi'i gyflawni'n rhannol |

| Cynigion ar gyfer gwella | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| CagG 6: Gwella trefniadau adrodd i sicrhau bod aelodau'n cael cyfrif llawn ac amserol o berfformiad y contract sy'n cynnwys refeniw/gwariant. | Wedi'i gyflawni'n rhannol |

7 Ar y cyfan, gwelsom fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd cyflym a da wrth fynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella, ond mae angen iddo wneud mwy i sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn sbarduno darpariaeth hamdden yn llawn yn y dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni dau o'r chwe chynnig ar gyfer wella, ac wedi cyflawni'r gweddill yn rhannol.
- erbyn hyn mae gweledigaeth hamdden glir ar gyfer y ddinas wedi'i chefnogi gan strategaeth pum mlynedd. Roedd rhywfaint o ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r strategaeth, yn enwedig integreiddio a chydweithio. Fodd bynnag, roedd ymwneud cyfyngedig â'r boblogaeth ehangach a gwendidau yn y modd yr ystyriodd y Cyngor gydraddoldeb pan fabwysiadodd y strategaeth.
- comisiynodd y Cyngor adolygiad o'r contract GLL ac mae'n mynd ati i ystyried newidiadau i elfennau penodol o'r contract.
- mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i gymhwyso'n gryfach, ond dylai'r Cyngor sicrhau'r trefniadau rheoli contract GLL gorau i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu llunio'n llawn yn unol â'r egwyddor hon.
- mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu a goruchwylio'r contract GLL;
- mae'r Cyngor bellach yn monitro'r contract GLL drwy ei brosesau rheoli risg corfforaethol. Fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau ei hun bod ganddo gamau effeithiol i liniaru'r risg y bydd y contract yn methu.
- mae adroddiadau perfformiad GLL i aelodau wedi gwella, fodd bynnag, mae gwybodaeth ariannol yn parhau i fod yn gyfyngedig.

8 Canolbwyntiwyd ar gynnydd y Cyngor yn erbyn ein cynigion blaenorol ar gyfer gwella. Rydym wedi gwneud argymhellion pellach fel y nodir yn **Arddangosyn 2** isod. Mae rhai o'r argymhellion hyn yn ymwneud â'n hargymhellion gwreiddiol, ond mae eraill yn ymwneud â chanfyddiadau a ddaeth i'n sylw yn ystod ein hadolygiad dilynol.

# Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A1** | **Cryfhau cymhwysiad yr egwyddor datblygu cynaliadwy**<br>Dylai'r Cyngor gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn llawnach drwy:<br>• gynnwys amrywiaeth ei phoblogaeth wrth ddylunio darpariaeth gwasanaethau hamdden yn y dyfodol; a<br>• sicrhau'r trefniadau rheoli contract gorau gyda GLL i ffurfioli sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn sbarduno'r gwasanaethau a ddarperir gan GLL yn llawn. |
| **A2** | **Cyflawni a monitro'r strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol**<br>• Gan gydnabod y dull sefydliad cyfan o drefnu sydd ei angen i helpu i gyflawni'r strategaeth, dylai'r Cyngor sicrhau bod Cynlluniau Cyflawni Cyfarwyddiaeth perthnasol yn y dyfodol yn ymgorffori camau a mesurau allweddol. Dylid monitro'r rhain fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad arferol y Cyngor. |
| **A3** | **Adroddiadau monitro GLL i'r pwyllgor craffu**<br>• Dylai'r Cyngor adrodd i'r pwyllgor craffu ar yr Economi a Diwylliant am ragolygon ariannol tymor canolig GLL yn adroddiadau monitro GLL yn y dyfodol. |
| **A4** | **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**<br>Mae angen i'r Cyngor gydymffurfio â'u Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-24 drwy gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol. Bydd hyn yn sicrhau bod y Cyngor:<br>• yn talu sylw dyledus i ddarpariaethau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus;<br>• nodi effeithiau negyddol posibl penderfyniadau ar unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig a chynllunio camau lliniarol yn unol â hynny; ac |

| Argymhellion | |
|---|---|
| | • yn nodi cyfleoedd ychwanegol i ddatblygu cydraddoldeb o fewn polisïau, strategaethau, a gwasanaethau. |
| **A5** | **Trefniadau rheoli risg contract GLL**<br>• Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun bod ganddo gamau effeithiol i liniaru'r risg y bydd contract GLL yn methu, gan gynnwys archwilio gwahanol opsiynau darparu gwasanaethau wrth gefn. |
| **A6** | **Arfarniad o Opsiynau**<br>• Mae angen i'r Cyngor roi ehangder llawn perfformiad a gwybodaeth ariannol i'r aelodau am y gwahanol opsiynau a gyflwynir iddynt, er mwyn helpu'r aelodau i fod â'r wybodaeth briodol i wneud penderfyniadau. |

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cyflym a da wrth fynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella, ond mae angen iddo wneud mwy i sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn sbarduno darpariaeth hamdden yn llwyr yn y dyfodol

9 Ers i ni orffen ein hadolygiad gwreiddiol o Wasanaethau Hamdden a ddarperir gan GLL, mae gwasanaethau cyhoeddus wedi gorfod ymateb i bandemig byd-eang COVID-19. Effeithiodd hyn yn fawr ar sut mae cyrff cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau hamdden, yn darparu eu gwasanaethau. Yn ystod y cyfnodau clo yn 2020 a 2021, fe wnaeth llawer o wasanaethau gau neu newid dulliau darparu dros dro. Ar adeg y gwaith maes ar gyfer yr adolygiad dilynol hwn, roedd bron pob cyfyngiad wedi ei godi ac roedd cyfleusterau ac adeiladau wedi ailagor.

10 Fel pob gwasanaeth hamdden ledled y DU, roedd GLL a'r Cyngor yn ymdrin â heriau sylweddol a grëwyd gan y pandemig. Cefnogodd y Cyngor GLL i ddefnyddio Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru. Wrth i GLL a'r Cyngor ddod i ben ag ymdrin â'r heriau hyn, maen nhw'n datblygu dull o adfer yn ariannol o'r pandemig ac yn cynllunio ar gyfer y dyfodol. Fel sefydliadau eraill, mae'n rhaid iddyn nhw hefyd ymateb i bwysau eraill gan gynnwys costau ynni uwch a phwysau costau byw bellach.

11 Mae ein hadolygiad dilynol yn cydnabod cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella o fewn y cyd-destun hwn. Mae'n gadarnhaol bod ein hadolygiad dilynol wedi canfod bod y Cyngor wedi ymateb yn gyflym i'n cynigion ar gyfer gwella ac yn gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â nhw.

12 Sefydlodd y Cyngor drefniadau i fonitro cynnydd yn erbyn ein cynigion ar gyfer gwella trwy draciwr hamdden Archwilio Cymru. Adroddir cynnydd i'r Cabinet a'r pwyllgor Craffu ar yr Economi a Diwylliant. Mae hyn yn darparu cyfle i'r aelodau herio cynnydd y Cyngor. Mae ein hasesiad o gynnydd y Cyngor ar bob un o'n cynigion ar gyfer gwella wedi'i nodi yn **Atodiad 1**. Gwnaethom osod rhai canfyddiadau ehangach o'n hadolygiad isod.

13 Yn ystod ein hadolygiad dilynol, gwelsom rai gwendidau o ran cymhwysiad y Cyngor o'i Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-20 24. Gwelsom na wnaeth y Cyngor, wrth fabwysiadu Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol (PASS) y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 20 Ionawr 2022, ystyried asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn sgil y PASS. Dywed Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant y Cyngor 2020-2024 ei bod yn arfer da wrth ddatblygu polisi neu strategaeth neu fenter newydd i ragweld yr effeithiau tebygol y gallai eu cael ac i gymryd camau i atal neu leihau unrhyw effeithiau niweidiol tebygol yn enwedig ar bersonau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Rydym yn nodi bod Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud trefniadau ar gyfer asesiadau effaith y mae'n ystyried eu

bod yn briodol, sy'n golygu bod gan y Cyngor ddisgresiwn sylweddol o ran ei ddull gweithredu. Rydym hefyd yn nodi bod y PASS yn bwriadu cefnogi cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fe wnaeth y Bwrdd ystyried asesiad cydraddoldeb ac effaith ar iechyd ar gyfer y cynllun hwnnw. Er i'r PASS, felly, gael ei datblygu gan ystyried dyletswyddau cydraddoldeb rywfaint, ni chafodd hyn ei gyfleu i'r Cabinet pan fabwysiadodd y cynllun.

14 Ar adeg ein gwaith maes, rhoddodd y Cyngor wybod i ni ei fod yn paratoi asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Fodd bynnag, nid ydym wedi derbyn hyn. Dylai cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ganiatáu i weithrediad y PASS ac unrhyw ddiwygiad ohoni gael ei lywio gan ymgysylltu cymunedol lleol i helpu i nodi effeithiau a rhwystrau tebygol. Gallai hyn helpu i fynd i'r afael ag achosion o weithgarwch corfforol isel ymhlith grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Byddai hefyd yn helpu'r Cyngor i ddangos ei ystyriaeth o'r ffordd 'cynnwys' o weithio o'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

15 Gwelsom hefyd dystiolaeth gyfyngedig y sicrhaodd y Cyngor ei hun ei fod yn llwyr ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol pan fabwysiadodd Cabinet y PASS. Mae ystyriaeth lawn o'r Ddeddf yn cyflwyno manteision ehangach, gwell canlyniadau a sicrhau na fethir cyfleoedd wrth ystyried anghenion a thueddiadau'r dyfodol.

16 Pan ddechreuom ar ein gwaith archwilio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) gwnaethom gydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rydym wedi nodi ein disgwyliad tymor canolig ein bod yn disgwyl i gyrff cyhoeddus ddangos sut y mae'r Ddeddf yn llywio'r hyn y maent yn ei wneud. Mae saith mlynedd bellach ers i'r Ddeddf gael ei phasio ac rydym yn yr ail gyfnod adrodd ar gyfer y Ddeddf. Felly, rydym bellach yn disgwyl i gyrff cyhoeddus ddangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u meddylfryd ac yn wirioneddol ffurfio'r hyn y maent yn ei wneud. Er i ni ganfod bod y Cyngor wedi cryfhau ei gymhwysiad o'r egwyddor datblygu cynaliadwy, nid yw'n sbarduno gwasanaethau hamdden a ddarperir drwy'r contract GLL yn llawn ar hyn o bryd.

# Atodiad 1

## Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad yn 2020

**Arddangosyn 3: asesiad o gynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella yn 2020**

| Cynigion ar gyfer Gwella 2020 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| CagG 1: Sefydlu strategaeth, gweledigaeth a blaenoriaethau eglur ar gyfer ei wasanaethau hamdden sy'n ymgorffori ystyriaeth i Ddeddf LlCD. | **Wedi'i gyflawni'n rhannol**<br>**Erbyn hyn mae gweledigaeth hamdden glir ar gyfer y ddinas wedi'i chefnogi gan strategaeth pum mlynedd. Roedd rhywfaint o ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r strategaeth, yn enwedig integreiddio a chydweithio. Fodd bynnag, roedd ymwneud cyfyngedig â'r boblogaeth ehangach a gwendidau yn y modd yr ystyriodd y Cyngor gydraddoldeb pan fabwysiadodd y strategaeth:**<br>• erbyn hyn mae Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol (PASS) ar gyfer Dinas Caerdydd wedi'i hardystio gan y Cabinet ym mis Ionawr 2022 gyda gweledigaeth glir: Caerdydd yw dinas orau'r DU i fod yn egnïol yn gorfforol, o gerdded, beicio a gweithgarwch ym mywyd bob dydd hyd at chwaraeon byd-enwog. Mae'n strategaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyda gweledigaeth glir i helpu i lunio gwasanaethau chwaraeon a hamdden y Cyngor.<br>• roedd dull cydweithredol o ddatblygu'r PASS. Chwaraeon Caerdydd arweiniodd y gwaith gan sefydlu grŵp datblygu strategaeth. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys Cyngor Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd Greenwich Leisure Limited (GLL) hefyd yn ymwneud â datblygu'r strategaeth.<br>• i gefnogi datblygiad y PASS, sicrhawyd cyllid gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i benodi ymgynghorydd i weithio gyda'r grŵp datblygu strategaeth. |

| Cynigion ar gyfer Gwella 2020 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | • wrth ddatblygu'r PASS, cynhaliwyd gweithdai gyda thrawstoriad o bartneriaid, rhanddeiliaid a sefydliadau'r trydydd sector. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi rhoi manylion i ni am y gweithdai, fel y partneriaid oedd yn bresennol, p'un a ydynt yn adlewyrchu poblogaeth amrywiol Caerdydd, eu cyfraniadau a sut y gwnaeth eu cyfraniad helpu i lunio'r PASS terfynol. Felly, nid ydym wedi derbyn digon o dystiolaeth i gael sicrwydd bod amrywiaeth lawn y boblogaeth wedi'i chynrychioli wrth sbarduno a ffurfio'r strategaeth.<br>• ym mis Ionawr 2022, pan gymeradwyodd y Cabinet y PASS, ni chyflwynwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'r Cabinet ar y pryd. Dywed Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant y Cyngor 2020-2024 ei bod yn arfer da wrth ddatblygu polisi neu strategaeth neu fenter newydd i ragweld yr effeithiau tebygol y gallai eu cael ac i gymryd camau i atal neu leihau unrhyw effeithiau niweidiol tebygol yn enwedig ar bersonau sy'n rhannu unrhyw nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Yn ogystal, bydd cael yr asesiad hwn yn galluogi'r Cyngor i wneud y canlynol:<br>– talu sylw dyledus i ddarpariaethau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus;<br>– nodi effeithiau negyddol posibl penderfyniadau ar unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig a chynllunio camau lliniaru priodol; a<br>– nodi cyfleoedd ychwanegol i ddatblygu cydraddoldeb o fewn polisïau, strategaethau, a Gwasanaethau.<br>• felly, nid yw'r Cyngor wedi dilyn ei Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant ei hun drwy lunio asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar yr adeg y cymeradwyodd y Cabinet y PASS.<br>• mae'r PASS yn alinio'n glir â'r Cynllun Gweithredu Byd-eang ar gyfer Gweithgarwch Corfforol (GAPPA) a ddatblygwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd, yn ogystal â Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a chynllun 'Symud Mwy, Bwyta'n Dda 2020-2023' Iechyd Cyhoeddus Cymru . Mae pedwar maes gweithredu allweddol sy'n sail i'r weledigaeth yn y PASS:<br>– Amgylcheddau Egnïol<br>– Cymdeithasau Egnïol<br>– Pobl Egnïol<br>– Systemau Egnïol |

| Cynigion ar gyfer Gwella 2020 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | • ar adeg ein gwaith maes, roedd cynlluniau gweithredu ar gyfer pob un o'r pedwar maes gweithredu allweddol, gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol, cerrig milltir ac ati i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth a'r PASS, ar gam datblygu cynnar. Bydd cwblhau'r cynlluniau gweithredu ar gyfer pob un o'r pedwar maes gweithredu allweddol yn tynnu sylw at rolau a chyfrifoldebau pob un o'r prif randdeiliaid wrth gyflawni'r camau gweithredu. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn arwain ar gwblhau'r cynlluniau gweithredu gyda mewnbwn sylweddol gan y Cyngor a rhanddeiliaid eraill. Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r cynlluniau hyn.<br>• mae'r Cyngor yn cydnabod nad rôl y gwasanaeth hamdden yn unig yw cyflawni'r PASS, ond dylai gwasanaethau eraill gyfrannu. Ar ôl datblygu cynlluniau gweithredu, mae'r Cyngor yn bwriadu ymgorffori agweddau perthnasol ar y PASS yn ei drefniadau rheoli perfformiad gyda chamau gweithredu a dangosyddion perfformiad wedi'u cynnwys mewn cynlluniau cyflenwi cyfarwyddiaeth gydag adrodd i aelodau. Bydd hyn yn allweddol i'r Cyngor hwyluso'r dull corff cyfan sydd ei angen i weithredu'r PASS. Bydd hefyd yn allweddol i helpu'r Cyngor i fonitro a gwerthuso ei gyfraniad i gyflawni'r PASS. |
| CagG 2: Cynnal adolygiad o fanyleb gwasanaethau contract GLL i sicrhau ei bod o gymorth i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer ei wasanaethau hamdden a'i amcanion llesiant ehangach. | **Wedi'i gyflawni**<br><br>**Comisiynodd y Cyngor adolygiad o'r contract GLL ac mae'n mynd ati i ystyried newidiadau i elfennau penodol o'r contract:**<br>• comisiynodd y Cyngor y Fforwm Partneriaeth Leol i adolygu'r contract GLL. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar y canlynol:<br>– cynaliadwyedd ariannol hirdymor y contract drwy adolygu manyleb y gwasanaeth a'i allu i ddarparu sefyllfa sy'n niwtral yn ariannol;<br>– dull y Cyngor o ymdrin â gwasanaethau a phartneriaethau integredig;<br>– adolygu'r prosesau rheoli contract presennol a swyddogaeth cleientiaid i asesu eu haddasrwydd a chymharu trefniadau llywodraethu â threfniadau tebyg eraill; ac |

| Cynigion ar gyfer Gwella 2020 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | – ystyried gwerth cymdeithasol hamdden a'r effaith ar lesiant yn sgil y trefniadau presennol ac unrhyw effaith ar lesiant yn sgil newidiadau i fanyleb y gwasanaeth.<br>• ar adeg ein gwaith maes, roedd y Fforwm Partneriaeth Leol wedi cyflwyno’i adroddiad i'r Cyngor a oedd yn cynnwys 21 o argymhellion. Mae disgwyl i'r pwyllgor craffu ar yr Economi a Diwylliant a'r Cabinet ystyried yr adroddiad yn mis Medi 2022.<br>• roedd GLL yn rhan lawn o adolygiad y Fforwm Partneriaeth Leol ac wedi cael golwg ar yr adroddiad a'r argymhellion terfynol.<br>• roedd swyddogion cyllid y Cyngor hefyd wedi’u hymgysylltu'n dda ag adolygiad y Fforwm Partneriaeth Leol, gan gynnwys gosod cwmpas a datblygu'r cylch gorchwyl.<br>• mae'r Cyngor a'r GLL yn edrych eto ar ddangosyddion perfformiad GLL ac yn nodi'r rhai sy'n cyd-fynd yn fwy â nodau llesiant y Cyngor. Bydd hyn yn dangos cyfraniad ac effaith GLL yn well.<br>• yn ogystal ag adolygiad y Fforwm Partneriaeth Leol, mae'r Cyngor yn ystyried newid manyleb contract GLL trwy ddileu Canolfan Hamdden Pentwyn a'r Felodrom yng Nghanolfan Hamdden Maendy.<br>• ym mis Mawrth 2021, cymeradwyodd y Cabinet y newidiadau hyn mewn egwyddor. Yn y cyfarfod hwnnw, rhoddwyd pedwar opsiwn i'r Cabinet yn ymwneud â Chanolfan Hamdden Pentwyn: cau’n llawn, cau’n rhannol, gwella’r cyfleuster, neu drosglwyddo i ddarparwr arall. Mae'r adroddiad yn nodi mai opsiwn pedwar, 'trosglwyddo i ddarparwr arall' sy’n rhoi'r cyfle gorau ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad yn nodi goblygiadau ariannol/perfformiad y pedwar opsiwn, gan godi pryderon am gadernid yr wybodaeth a ddarperir i aelodau. Dylai arfarniad cadarn o opsiynau ddarparu ehangder llawn yr wybodaeth am yr opsiynau a gyflwynir i helpu aelodau i wneud penderfyniad gwybodus.<br>• ar adeg ein gwaith maes, yn dilyn y penderfyniad mewn egwyddor gan y Cabinet, roedd y Cyngor yn parhau i weithio ar achos busnes i dynnu Canolfan Hamdden Pentwyn o'r contract. Mae’r Cyngor yn cydnabod y gallai newid manyleb y contract effeithio ar unrhyw newidiadau posibl i’r contract yn y dyfodol. Yn hytrach na gweithio i amserlen benodol, mae'r |

| Cynigion ar gyfer Gwella 2020 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | Cyngor yn sicrhau diwydrwydd dyladwy, gan ymwneud â thimau cyllid a chyfreithiol y Cyngor i baratoi achos busnes terfynol cyn gwneud penderfyniad terfynol. |
| CagG 3: Ystyried sut y gall gryfhau'r modd y cymhwysir yr egwyddor datblygu cynaliadwy trwy'r gwasanaethau a ddarperir gan GLL, gan gynnwys:<br>• mabwysiadu dull mwy strategol o gydweithio sy'n sicrhau bod yr holl sefydliadau gan gynnwys Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro/Iechyd y Cyhoedd a'r Trydydd Sector yn rhan o gynllunio a datblygu gwasanaethau GLL a gwasanaethau hamdden eraill ar lefel leol a rhanbarthol.<br>• mynd ati ymhellach i integreiddio'r broses o gynllunio a darparu Gwasanaethau Hamdden GLL â chyrff cyhoeddus eraill a gwasanaethau eraill y Cyngor, megis Addysg a Gofal Cymdeithasol.<br>• gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u cynnwys yn y broses o ddatblygu a darparu gwasanaethau hamdden GLL a | **Wedi'i gyflawni'n rhannol**<br><br>**Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i gymhwyso'n gryfach, ond dylai'r Cyngor sicrhau'r trefniadau rheoli contract GLL gorau i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu llunio'n llawn yn unol â'r egwyddor hon:**<br>• roedd cyfraniad GLL wrth ddatblygu'r PASS yn rhoi mynediad i GLL i sawl rhanddeiliad ledled y ddinas. Wedi hynny, mae GLL wedi cysylltu â'r rhanddeiliaid hyn i archwilio gwaith partneriaeth posibl.<br>• mae GLL wedi cysylltu â'r bwrdd iechyd lleol ac yn gweithio ar y cyd i lunio a dylunio rhaglenni gweithgarwch lluosog i'w cynnal mewn canolfannau hamdden. Mae GLL yn gweithio gyda ffisiotherapyddion, deietegwyr a'r uned niwrolegol wrth gynnig gweithgareddau ataliol, ymyrraeth gynnar neu adsefydlu. Mae GLL wedi uwchsgilio staff a chreu aelodaeth cost isel i'r rhai sy'n mynychu'r gweithgareddau i barhau i ddefnyddio'r canolfannau hamdden ar ôl i'w cwrs gweithgarwch ddod i ben.<br>• mae GLL yn cymryd rhan weithredol yn Rhaglen Dianc Rhag Poen y GIG. Mae GLL yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol y GIG i helpu pobl i baratoi yn well ar gyfer llawdriniaeth poen yn y glun a'r ben-glin.<br>• mae rheolwr Contract GLL yn rhan o grŵp GIG sy'n edrych ar COVID hir ac yn edrych ar weithgareddau ataliol ac ôl-salwch.<br>• ers ein hadolygiad gwreiddiol, mae GLL bellach yn fwy cysylltiedig â gwasanaethau eraill y Cyngor. Mae enghreifftiau'n cynnwys gweithio gyda'r tîm ystadau strategol ar yr agenda datgarboneiddio a gweithio gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid.<br>• mae GLL a'r Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod eu cynlluniau blynyddol a chynllun pum mlynedd GLL yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor, fel yr agenda |

| Cynigion ar gyfer Gwella 2020 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| gwasanaethau hamdden eraill i sicrhau eu bod yn cynrychioli anghenion a dyheadau'r amrywiaeth lawn o gymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu. | datgarboneiddio. Tua 18 mis yn ôl, adolygodd GLL a'r Cyngor Uchelgais Prifddinas y Cyngor a'i Gynllun Corfforaethol i sicrhau bod gwaith GLL yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau corfforaethol ehangach.<br>• fel y nodir yn CagG 4 isod, mae'r trafodaethau rheolaidd rhwng GLL a'r Cyngor yn cyflwyno cyfle i'r Cyngor gael ystyriaeth fwy strwythuredig a ffurfiol o'r egwyddor datblygu cynaliadwy gyda GLL ac i gael sicrwydd bod GLL yn cymhwyso'r egwyddor yn llawn wrth ddarparu ei wasanaeth. Rydym hefyd wedi codi pryderon am gymhwysiad y Cyngor o'i Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn unol â CagG 1 uchod. |
| CagG 4: Gwella'r trefniadau rheoli contract i sicrhau bod manyleb y contract yn cael ei monitro mewn modd cadarn a thryloyw. | **Wedi'i gyflawni**<br><br>**Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu a goruchwylio'r contract GLL :**<br>• mae perthynas bositif a pharchus rhwng y Cyngor a GLL.<br>• mewn ymateb i'r pandemig, sefydlodd GLL a'r Cyngor gyfarfodydd cyllid misol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn ychwanegol at y cyfarfodydd rheoli contract arferol. Cytunodd y ddau bartner i barhau â'r cyfarfodydd hyn ar ôl mis Mawrth 2022 pan ddaeth Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru i ben. Ystyriodd GLL a'r Cyngor fod y cyfarfodydd hyn yn fuddiol ar gyfer cynaliadwyedd ariannol hirdymor y contract.<br>• ers ein hadolygiad gwreiddiol, mae gan uwch reolwyr fwy o ran wrth oruchwylio'r gwaith o fonitro'r contract GLL ac mae'n derbyn gwell gwybodaeth ariannol. Cafodd Bwrdd Cyswllt y Prosiect, sy'n cynnwys Aelodau Cyllid a Hamdden a Diwylliant y Cabinet, adroddiadau ariannol chwarterol yn flaenorol gyda rhagamcanion diwedd blwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn bellach hefyd yn cynnwys rhagamcanion ariannol ar gyfer y pedair i bum mlynedd nesaf. Mae'r rhain yn rhoi gwell dealltwriaeth i Fwrdd Cyswllt y Prosiect o olwg tymor canolig o sefyllfa ariannol y contract. |

| Cynigion ar gyfer Gwella 2020 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
| --- | --- |
| | • hefyd, mae'n gadarnhaol bod y Pennaeth Cyllid a swyddog o wasanaeth Cyfreithiol y Cyngor bellach yn aelodau o Fwrdd Cyswllt y Prosiect. Mae hyn yn rhoi mynediad amserol i'r Bwrdd at gyngor ac arbenigedd corfforaethol yn y meysydd hyn<br>• yn 2021, sefydlodd GLL a'r Cyngor gyfarfodydd uwch reolwyr misol i gynnwys: uwch reolwyr GLL; Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd y Cyngor; Pennaeth Cyllid; Rheolwr Gweithredol, Chwaraeon, Hamdden a Datblygiad; a Phennaeth yr Awdurdod Parciau, Chwaraeon a'r Harbwr yn ogystal ag aelod o dîm Cyfreithiol y Cyngor. Mae hyn wedi cryfhau'r cyfathrebu rhwng GLL a'r Cyngor. Mae'n rhoi cyfle i drafod materion a risgiau, ac ystyried y ddarpariaeth a ddarperir gan GLL yn y dyfodol.<br>• mae'r cyfarfodydd monitro contract misol a chwarterol strwythuredig a oedd ar waith ar adeg ein hadolygiad gwreiddiol yn parhau. Mae hefyd gyswllt llai ffurfiol, aml rhwng GLL a'r Cyngor i drafod a mynd i'r afael ag unrhyw faterion gweithredol brys.<br>• ar y cyfan, mae llawer o gyfleoedd gwahanol bellach ar gyfer rheoli contractau a monitro trafodaethau rhwng GLL a'r Cyngor. Mae trefniadau clir i drafod materion gweithredol, pwysau ariannol uniongyrchol, cynaliadwyedd ariannol tymor canolig i hwy y contract yn ogystal â risgiau, perfformiad, newidiadau manyleb gwasanaethau ac ati. Yn gryno, y trefniadau hyn yw:<br>– Bwrdd Cyswllt y Prosiect<br>– Cyfarfodydd uwch reolwyr misol<br>– Cyfarfodydd partneriaeth adolygu chwarterol<br>– Cyfarfodydd partneriaeth misol<br>• ers ein hadolygiad blaenorol, mae blaenoriaethau'r GLL a'r Cyngor wedi canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig a goblygiadau ariannol cau canolfannau hamdden. Yn fwy diweddar, bu mwy o bwyslais ar gostau ynni cynyddol. Mae adroddiadau monitro GLL i wahanol gyfarfodydd monitro contract, ac i'r pwyllgor craffu ar yr Economi a Diwylliant, yn nodi gwybodaeth ddefnyddiol. Mae'r wybodaeth yn cynnwys y cyfraddau cyfranogiad defnydd presennol yn ogystal â 2019 a rhifau aelodaeth ym mhob canolfan hamdden sy'n effeithio ar |

| Cynigion ar gyfer Gwella 2020 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | lefelau incwm. Mae'r data hyn yn nodi'n glir sefyllfa bresennol GLL o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig.<br>• Mae GLL yn ymateb i'r her ariannol o adfer ar ôl y pandemig drwy ddatblygu dull tri cham o adferiad: Ailgychwyn, Ailadeiladu ac Yn ôl i Well. Mae gan bob cam dargedau incwm a gwariant y mae Bwrdd Cyswllt y Prosiect yn eu monitro'n chwarterol.<br>• fel y nodwyd yn adran CagG 2 uchod, comisiynodd y Cyngor y Fforwm Partneriaeth Leol i gynnal adolygiad annibynnol o'r contract. Un o'r pedwar maes i'w hadolygu oedd adolygu'r prosesau rheoli contract presennol a swyddogaeth cleientiaid i asesu ei addasrwydd a chymharu trefniadau llywodraethu â threfniadau tebyg eraill. Roedd GLL yn rhan lawn o'r adolygiad hwn ac yn ymwybodol o'r argymhellion. Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd yr aelodau wedi gweld adroddiad y Fforwm Partneriaeth Leol. Mae disgwyl i'r Cabinet a'r pwyllgor craffu ar yr Economi a Diwylliant ei ystyried ym mis Medi 2022. |
| CagG 5: Sicrhau bod y Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i ystyried risgiau ariannol a risgiau llesiant hirdymor y contract hamdden yn ei brosesau rheoli risgiau corfforaethol. | **Wedi'i gyflawni'n rhannol**<br><br>**Mae'r Cyngor bellach yn monitro'r contract GLL drwy ei brosesau rheoli risg corfforaethol. Fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau ei hun bod ganddo gamau effeithiol i liniaru'r risg y bydd y contract yn methu:**<br>• yn ein hadroddiad yn 2020, gwnaethom ddweud ei bod yn gadarnhaol bod y pwyllgor craffu perthnasol wedi bod yn rhan o adolygu'r gwasanaeth a ddarperir gan GLL. Fodd bynnag, nid oedd y pwyllgor wedi cael gwybod am sefyllfa weithredu GLL, adroddiad beirniadol Archwilio Mewnol yn ymwneud â'r contract ac nid oedd unrhyw risgiau newydd yn ymwneud â chontract GLL ar gyfer y Cyngor.<br>• yng nghyflwyniad monitro blynyddol GLL i'r pwyllgor craffu ym mis Rhagfyr 2021 ac yng ngohebiaeth ddilynol y pwyllgor craffu i'r aelod Cabinet, roedd yn amlwg bod aelodau bellach yn ymwybodol o'r risg yn ymwneud â lefelau incwm GLL. |

| Cynigion ar gyfer Gwella 2020 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | • ers ein hadolygiad gwreiddiol, mae cynaliadwyedd contract GLL bellach wedi'i gynnwys yng nghynllun cyflenwi y gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd ac mae'n cael ei raddio fel risg coch/ambr ar gofrestr risg y gyfarwyddiaeth. Yn ogystal, yn ystod chwarter 4 2019-20, uwchgyfeiriodd y gyfarwyddiaeth y risg hon i'r Uwch Dîm Rheoli. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y risg yn parhau i fod wedi'i huwchgyfeirio i'r uwch dîm rheoli ac yng nghynllun cyflenwi cyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd 2022-23.<br>• yn unol â strategaeth rheoli risg y Cyngor, gan ei fod yn risg â sgôr goch, mae'r Cyfarwyddwr yn darparu diweddariadau bob chwe mis ar gontract GLL a'r risg gysylltiedig i'r uwch dîm rheoli.<br>• mae dau gam yng nghynllun cyflenwi'r gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd i fynd i'r afael â'r risg hon. Y ddwy weithred yw: ystyried ceisiadau am gyllid yn y dyfodol gan GLL; a gweithredu ar ganlyniadau'r adolygiad o fanyleb y gwasanaeth. Dylai'r Cyngor gwblhau asesiad lefel uchel o wahanol opsiynau cyflenwi gwasanaethau hamdden os na fydd camau lliniaru camau yn lleihau'r risg sy'n arwain at fethiant y contract GLL. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn dibynnu ar y ddwy weithred liniaru hyn er mwyn mynd i'r afael â risg ariannol sylweddol i'r Cyngor ac nid yw wedi ystyried yn ffurfiol opsiynau cyflenwi gwasanaethau eraill. |
| CagG 6: Gwella trefniadau adrodd i sicrhau bod aelodau'n cael cyfrif llawn ac amserol o berfformiad y contract sy'n cynnwys refeniw/gwariant . | **Wedi'i gyflawni'n rhannol**<br><br>**Mae adroddiadau perfformiad GLL i aelodau wedi gwella, fodd bynnag, mae gwybodaeth ariannol yn parhau i fod yn gyfyngedig:**<br>• mae pwyllgor Craffu ar yr Economi a Diwylliant y Cyngor yn parhau i dderbyn adroddiadau monitro GLL blynyddol. Derbyniodd y pwyllgor yr adroddiad monitro diweddaraf ym mis Rhagfyr 2021 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Tachwedd 2021. Roedd y cyflwyniad i'r pwyllgor yn cynnwys perfformiad cyfredol ar gyfer pob canolfan hamdden o'i gymharu â pherfformiad 2019. Amlygodd y gymhariaeth hon yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar bob defnydd o ganolfannau hamdden, cyfraddau cyfranogi a lefelau incwm. |

| Cynigion ar gyfer Gwella 2020 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | Yn ogystal, mae'r adroddiad monitro yn cynnwys naratif byr ar sut mae'r canolfannau hamdden yn perfformio o'i gymharu â chyfartaledd y DU.<br>• roedd aelodau'r pwyllgor wedi'u hymgysylltu, yn agored ac yn gefnogol i sut y gallant helpu GLL. Yn benodol, codi ymwybyddiaeth o'r canolfannau hamdden i gynyddu'r defnydd a bod yn gyfrwng rhwng GLL a grwpiau cymunedol lleol.<br>• fel y nodir yn adran CagG 5 uchod, mae'r pwyllgor craffu bellach yn ymwybodol o'r risg i lefelau incwm GLL. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor craffu yn cael yr wybodaeth rhagolygon ariannol tymor canolig y mae Bwrdd Cyswllt y Prosiect yn ei chael. Byddai hyn yn helpu'r pwyllgor craffu i gael dealltwriaeth ehangach o gynaliadwyedd ariannol y contract. |

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.